

JAMES, DAVID ('Defynnog '; 1865 - 1928), athro, addysgydd a threfnydd Ysgolion haf, ac awdur

Enw: David James
Ffugenw: Defynnog
Dyddiad geni: 1865
Dyddiad marw: 1928
Priod: Sarah James
Priod: Sarah James (née Harris)
Plentyn: David Geraint James
Rhiant: Mary James (née Thomas)
Rhiant: David James
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: athro, addysgydd a threfnydd Ysgolion haf, ac awdur
Maes gweithgaredd: Addysg; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Gwilym Arthur Jones

Ganwyd 17 Awst 1865 yn Libanus, plwyf Defynnog, Brycheiniog. Mab ydoedd i David James, gweinidog (B) a'i wraig Mary, chwaer '[Myfyr Emlyn](#)', y bardd-bregethwr. Bu ganddynt bedwar mab a phedair merch.

Addysgwyd Defynnog yng Nghynwyl Elfed, Sir Gaerfyrddin a Dinas, Sir Benfro lle'r oedd ei dad yn weinidog. Rhoes ei fryd ar fod yn athro ac, ar ôl bwrw cyfnod fel disgybl-athro, fe'i derbyniwyd fel athro trwyddedig. Llwyddodd yn arholiad matriculation Prifysgol Llundain (1889) ac enillodd amryfal dystysgrifau mewn nifer o bynciau dysgu. Ymaelododd â'r University Correspondence College, Caergrawnt, gan lwyddo yn arholiadau 'Intermediate Arts' mewn Lladin, Groeg, Ffrangeg, Mathemateg a Saesneg.

Daeth i'w ran hefyd wobrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol Yn Eisteddfod Merthyr Tudful (1901) enillodd am astudiaeth o 'Kymric Literature' ac yn Eisteddfod Bangor (1902) dyfarnwyd y wobr gyntaf iddo am ymdriniaeth feirniadol ar nofelau [Daniel Owen](#). Derbyniwyd ef yn aelod o Orsedd y Beirdd ac yn feirniad cenedlaethol. Treuliodd gyfnodau fel ysgolfeistr yn Eglwysrwr, Cwmifor, Templeton, Pupil Teacher Centre, Rhondda, Dwn-rhefn a Threherbert (1908-26).

Er ei fod yn fathemategydd da, fel ei frawd [John](#), troes ei olygon at wella dulliau o ddysgu Cymraeg. Pan benodwyd ef ar 1 Hydref 1902 yn ysgrifennydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg manteisiodd ar y cyfle i hyrwyddo'i genhadaeth trwy Gymru. Ymroes i ysgrifennu llyfrau darllen, llawlyfrau dysgu, cynlluniau dysgu iaith a geiriadur plant. Cyfrannodd yn helaeth i *Cymru*, *Cymru'r Plant*, *Y Darian*, *Yspryd yr oes*, *Y Geninen*, *Seren Gomer*, *The Welsh Outlook*, a *The Welsh Leader*. Yn fwy na dim ef a gychwynodd yr Ysgol Haf Gymraeg yn 1903. Yr oedd yn drefnydd penigamp a llwyddodd i wahodd rhai o ddysgedigion y genedl i annerch aelodau'r ysgolion haf ar ddysgu Cymraeg a hanes llên. Enillodd edmygedd a chefnogaeth gwyr fel [Syr Isambard Owen](#), [Syr O. M. Edwards](#) a [Syr J. E. Lloyd](#).

Fe'i gwahoddwyd i ymuno â chomisiwn addysg Mosely yn 1903 a ymwelodd â Thaleithiau Unedig America a Chanada. Cyhoeddodd lyfr o'i argraffiadau, *American methods of organisation and instruction* (1908). Credai'n gryf yn y dull union o ddysgu iaith a chymeradwyai ef (trwy'r Gymdeithas) i sylw ysgolion yr ardaloedd Seisnigedig. Cafodd y *Scheme of instruction in Welsh* a luniasai ar y cyd â H. Howells, sêl bendith pwyllgor addysg y Rhondda. Ni allai oddef athrawon diog na roddai ystyriaeth lawn i hybu'r iaith. Gofid iddo oedd gweithred y Pwyllgor Adrannol ar le'r Gymraeg mewn addysg a bywyd (1925), yn esgeuluso cenhadaeth a gweithgarwch Cymdeithas yr Iaith Gymraeg er yr ystyriwyd gwahodd [Syr Isambard](#) i weithredu ar y pwyllgor.

Ni fodlonai Defynnog ar fwyta bara seguryd hyd yn oed ar ôl ymddeol. Parhâi i ysgrifennu'n ddyddiol fel golygydd colofn Gymraeg y *South Wales News* nes i afiechyd ei lesteirio. Yr oedd o blaid sefydlu ysgrifenyddiaeth wladol i Gymru. Bu farw 1 Rhagfyr 1928 yn Abertawe a chladdwyd ef ym mynwent Llethr Ddu, Porth, y Rhondda. Ni bu'r newyddiaduron yn fyr eu clodydd iddo gan ganmol ei garedigrwydd, ei haelioni ei ymroddiad a'i sêl ysol dros yr iaith Gymraeg. Priododd Sarah Harris a bu iddynt un mab. Ar ôl marw Sarah priododd Mrs Sarah Williams ar 7 Awst 1920, gwraig weddw gyda thair merch. Ganwyd iddynt fab, David Geraint.

Awdur

Gwilym Arthur Jones, (1925 - 1998)

Ffynonellau

Gwilym Arthur Jones, ' *A Biography of the Reverend David James ... Dewi o Ddyfed, sometime rector of Panteg* (Pontypool

1925) (Defynnog) 1865-1928 in the context of Welsh education', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1978, 267-84 (gyda llyfryddiaeth)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [51465322](#)

Wikidata: [Q20748815](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

